**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**
**Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-1051
Ein cyf/Our ref DET/03774/20

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd
Pwyllgor Deisebau

13 Ionawr 2021

Annwyl Janet,

Diolch am eich gohebiaeth ynghylch deiseb i ganiatáu i athletwyr iau o Gymru hyfforddi gyda'r un rheoliadau Covid ag athletwyr iau o Loegr.

Ers eich cyfarfod mae'r rheoliadau wedi newid bellach fel a nodwyd gan y Prif Weinidog ar 19 Rhagfyr, ac o'r 20 Rhagfyr ymlaen, mae Cymru wedi bod ar gyfyngiadau lefel rhybudd 4. Mae rhagor o wybodaeth ar yr hyn y mae pob lefel rhybudd yn ei olygu, a'r hyn sy'n cael ei ganiatáu, a pam a phryd y byddwn yn symud rhwng lefelau i'w gweld yma ac yma. Mae Cwestiynau Cyffredin ac atebion ynghylch y rheoliadau i'w gweld yma.

Mae Rhybudd lefel 4 yn golygu nad yw unrhyw chwaraeon amatur wedi'u trefnu yn cael eu caniatáu yng Nghymru.  Drwy gydol y pandemig rydym wedi cydweithio'n agos â phob un o'r cyrff perthnasol, gan gynnwys Chwaraeon Cymru, Cymdeithas Chwaraeon Cymru a nifer o'r cyrff llywodraethu chwaraeon cenedlaethol (NGB), megis y FAW a WRU, i sicrhau ein bod yn rhoi neges glir, gan dderbyn gofynion chwaraeon penodol.   Gall chwaraeon proffesiynol barhau, yn amodol ar y canllawiau gan yr NGB perthnasol a sefydlu mesurau rhesymol i warchod y rhai sy'n cymryd rhan.  Caiff athletwyr statws elitaidd (wedi'i ddynodi gan Chwaraeon Cymru, drwy Grŵp Chwaraeon Cenedlaetholl sydd hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr o Lywodrraeth Cymru, yr WSA a Gemau'r Gymanwlad Cymru) hefyd hyfforddi a chystadlu.

Ein dull o fynd i'r afael â'r holl reoliadau yw ceisio cynnig rheolau syml a chlir pan fo modd. Fodd bynnag, trwy drafodaethau gyda'r sector chwaraeon bu'n amlwg y byddai'n amhosibl cynnig un gyfres o reolau i bawb.  Byddai angen ystyried y math o chwaraeon, grwpiau oedran, yn ogystal â statws y cyfranogwyr (proffesiynol neu amatur).  Dyma'r rheswm pam yr ydym wedi gofyn i'r awdurdodau chwaraeon eu hunain greu canllawiau penodol ar gyfer chwaraeon, ond eu bod hefyd yn cyd-fynd â'r rheoliadau cenedlaethol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru
Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales


Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg.  Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh.  Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae dull Llywodraeth Cymru o fynd i'r afael â'r cyfyngiadau wedi bod yn seiliedig ar y data a'r wyddoniaeth ddiweddaraf sy'n berthnasol i Gymru, ac yn seiliedig ar y cyngor diweddaraf gan ein cynghorwyr gwyddonol a meddygol ein hunain.  Mae hyn er mwyn cyfyngu ar y bobl yr ydym yn dod i gysylltiad â hwy, ac i arafu trosglwyddiad y feirws. Trwy'r rheolau hyn, rydym yn ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng iechyd meddyliol a chorfforol pobl, a'n heconomi, â'r angen i gadw pobl yn ddiogel a gwarchod y GIG.

Rydym yn cydnabod yn llawn yr ymdrechion a'r aberth enfawr y mae'r cyhoedd a busnesau yng Nghymru wedi ei wneud i gadw Cymru yn ddiogel.  Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu diweddariadau rheolaidd drwy Gynadleddau Covid 19 i'r Wasg dros y dyddiau a'r wythnosau nesaf.

Yn gywir,



**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS**
Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth